# Agenda - Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a: |
| **Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd** | **Gareth Price** |
| Dyddiad: Dydd Mercher, 10 Gorffennaf 2019 | Clerc y Pwyllgor |
| Amser: 09.30 | 0300 200 6565 |
| | SeneddDGCh@cynulliad.cymru |

**1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

(09.30)

**2 Sesiwn graffu gyffredinol gyda'r Ysgrifennydd Parhaol a Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol**

(09.30-11.00) (Tudalennau 1 - 27)

Shan Morgan, Ysgrifennydd Parhaol

Eluned Morgan AC, Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

Dylan Hughes, Prif Gwnsler Deddfwriaethol - Llywodraeth Cymru

Bethan Webb, Dirprwy Gyfarwyddwr y Gymraeg - Llywodraeth Cymru

**Egwyl (11.00-11.15)**

**3 Minnau hefyd! - Ymchwiliad i rôl y celfyddydau a diwylliant wrth fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol: sesiwn dystiolaeth gyda'r Farwnes Kay Andrews OBE**

(11.15-12.15) (Tudalennau 28 - 41)

Barwnes Kay Andrews OBE

**4 Papurau i'w nodi**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

4.1 Gohebiaeth gydag Equity ynghylch yr angen i gynnal clyweliadau lleol ar gyfer cynyrchiadau a ariennir gan Lywodraeth Cymru

(Tudalennau 42 - 44)

4.2 Llythyr at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Y Gymraeg mewn Gwasanaethau Gofal Sylfaenol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019

(Tudalennau 45 - 47)

4.3 Llythyr at y Gweinidog Addysg ynghylch natur drosglwyddadwy sgiliau addysgu

(Tudalennau 48 - 49)

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

## 6 Ôl-drafodaeth breifat

(12.15-12.25)

## 7 Cynyrchiadau ffilm a theledu mawr yng Nghymru: trafodaeth cyn dadl y Cyfarfod Llawn ar adroddiad y Pwyllgor

(12.25-12.30)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**PAPUR TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG I'R PWYLLGOR DIWYLLIANT, Y GYMRAEG A CHYFATHREBU**

**Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol: Gorffennaf 2019**

---

## Cyflwyniad

Diben y papur hwn yw darparu tystiolaeth cyn imi ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 10 Gorffennaf 2019. Yn y gwahoddiad a ddaeth i law, gofynnwyd imi ganolbwyntio ar y meysydd canlynol:

1. ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Gyllideb Ddrafft 2019-20;
2. y papur sy'n amlinellu'r opsiynau ar gyfer cynllunio ieithyddol yr oedd y Gweinidog yn rhagweld y byddai'n gallu gweithredu arnynt ym mis Mehefin;
3. maint a strwythur staffio adran y Gweinidog;
4. y broses arfaethedig ar gyfer penodi'r Bwrdd Llywodraethu y bwriedir ei osod uwchlaw Comisiynydd y Gymraeg. Er enghraifft, pwy fyddai'n penodi'r aelodau a sawl unigolyn y byddai ei angen. Hefyd, unrhyw fanylion pellach gan y Gweinidog ynghylch cyfrifoldebau clir a phendant y Bwrdd a sut y bydd yn sicrhau arbenigedd ac atebolrwydd ychwanegol.

Mae'r ymateb manwl isod yn canolbwyntio ar bob un o'r pwyntiau hyn yn eu tro.

**Ymateb  Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Gyllideb Ddrafft 2019-20**

Bu’r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn craffu ar gyllideb ddrafft 2019-20 Llywodraeth Cymru ar 14.11.2018 a llunio adroddiad byr wedi hynny yn crynhoi gwaith y Pwyllgor.

Roedd adroddiad y Pwyllgor yn trafod nifer o feysydd ac yn gwneud sawl argymhelliad, er enghraifft ynghylch dyrannu cyllideb ar gyfer y Gymraeg, y cynllun Sabothol, darpariaeth y blynyddoedd cynnar, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Comisiynydd y Gymraeg, deddfwriaeth a chyllid cyfalaf. Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd a wnaed o ran yr argymhellion yn Atodiad A isod.

**Y papur sy'n amlinellu'r opsiynau ar gyfer cynllunio ieithyddol yr oedd y Gweinidog yn rhagweld y byddai'n gallu gweithredu arnynt ym mis Mehefin**

Pan ymddangosais gerbron y Pwyllgor y tro diwethaf ym mis Chwefror, esboniais y rhesymau y tu ôl i'm penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â Bil y Gymraeg. Er gwaethaf y penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â'r Bil, mae'r dadansoddiad gwaelodol yn y Papur Gwyn yn dal yn berthnasol: mae angen dod o hyd i gydbwysedd newydd o ran ein hymdrechion a ffocws ein gweithgarwch, rhwng darparu hawliau i siaradwyr Cymraeg ac elfennau eraill o bolisi'r Gymraeg.

Er mwyn cyflawni strategaeth *Cymraeg 2050*, rwy'n glir yn fy meddwl bod angen inni ganolbwyntio ar:

a. darparu cymorth ymarferol ac anogaeth i gyrff a reoleiddir i ddatblygu sylfaen o ddefnyddwyr gwasanaethau Cymraeg, gan sicrhau effaith fwyaf bosibl yr agenda hawliau;
b. cynllunio systemig i gynyddu nifer y bobl sy'n caffael yr iaith;
c. rhaglen waith i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y teulu, yn gymdeithasol ac yn y gweithle; a
ch. gweithio ar draws y Llywodraeth i sicrhau bod polisïau ym meysydd datblygu economaidd, tai, cynllunio, addysg, diwylliant ac ati yn cefnogi gweledigaeth y strategaeth.

Yn ystod ei ymchwiliad diweddar i gefnogi a hybu'r Gymraeg, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth bod yna ddiffyg eglurder ymhlith rhanddeiliaid ynghylch y ffordd y mae cyfrifoldebau wedi'u rhannu rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â gweithgareddau nad ydynt yn rheoleiddiol sydd â'r nod o hybu'r defnydd o'r Gymraeg. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, rwyf wedi cael trafodaethau adeiladol gydag Aled Roberts, ers iddo ddechrau yn ei swydd fel Comisiynydd, ynghylch sut mae'r cyfrifoldebau wedi'u rhannu.

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi clywed tystiolaeth gan randdeiliaid sy'n teimlo nad oes digon o ymyriadau, ar hyn o bryd, sy'n seiliedig ar egwyddorion cynllunio ieithyddol, i fynd i'r afael â chwestiwn sylfaenol y defnydd a wneir o'r iaith yn y gymdeithas. Mae rhai wedi dadlau o blaid sefydlu corff neu asiantaeth allanol newydd i hybu'r Gymraeg (yn ychwanegol at rôl reoleiddio'r Comisiynydd a rôl arwain strategol Llywodraeth Cymru) er mwyn ysgogi egni a ffocws newydd i'r gwaith hwn.


Fel yr esboniais i'r Pwyllgor, nid wyf o blaid creu corff allanol newydd ar sail y gost, y ffaith y gallai greu dryswch ymhlith y cyhoedd, a bod risg uchel o ddyblygu swyddogaethau. Fodd bynnag, dros yr wythnosau diwethaf rwyf wedi bod yn ystyried sut y gallwn ni yn Llywodraeth Cymru greu ffocws newydd ar gyfer cynllunio ieithyddol o fewn y Llywodraeth a'r tu hwnt iddi. Mae hyn yn golygu ystyried pa strwythurau y mae eu hangen o fewn gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru yn ogystal â sicrhau bod yr arbenigedd a'r profiad gofynnol ym maes cynllunio ieithyddol y tu allan i'r Llywodraeth ar gael inni.

Wrth feddwl am strwythurau, mae sicrhau eglurder o ran diben gwahanol weithgarwch yn bwysig. Yn aml, caiff trafodaeth am bolisi'r Gymraeg ei hystyried yn weithgarwch i 'hybu' y defnydd o'r Gymraeg. Fodd bynnag, mae yna risg y gallai term lefel uchel o'r fath arwain at anghysondeb o ran ystyr, ac felly at ddyblygu neu hepgor gweithgarwch hefyd. Rwy'n awyddus o'r herwydd i sicrhau ein bod yn symud tuag at naratif mwy eglur ynghylch yr hyn a olygwn wrth sôn am 'hybu'. Yn benodol, rydym am symud tuag at sefyllfa lle mae i weithgareddau ddeilliannau mesuradwy clir sydd, gyda'i gilydd, yn cyfrannu at ein targed yn strategaeth *Cymraeg 2050* i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

## Maint a strwythur staffio adran y Gweinidog

Ddiwedd Mai 2019, roedd yna 36 o swyddi o fewn Is-adran y Gymraeg. Mae 6 Changen i'r Is-adran:

- Cangen Cymraeg 2050 – 5 aelod o staff
- Cangen Hybu a Hyrwyddo – 6 aelod o staff
- Cangen Polisi Cymunedol – 4 aelod o staff
- Cangen Deddfwriaeth – 2 aelod o staff
- Cangen Cynllunio Addysg – 10 aelod o staff
- Cangen Adnoddau'r Gymraeg mewn Addysg – 5 aelod o staff
- Eraill - 4 aelod o staff



**Y broses arfaethedig ar gyfer penodi'r Bwrdd Llywodraethu y bwriedir ei osod uwchlaw Comisiynydd y Gymraeg. Er enghraifft, pwy fyddai'n penodi'r aelodau a sawl unigolyn y byddai ei angen. Hefyd, unrhyw fanylion pellach gan y Gweinidog ynghylch cyfrifoldebau clir a phendant y Bwrdd a sut y bydd yn sicrhau arbenigedd ac atebolrwydd ychwanegol.**

Ni chaiff "Bwrdd Llywodraethu" newydd ei sefydlu i'w osod uwchlaw Comisiynydd y Gymraeg. Mae gan y Comisiynydd Banel Cynghori statudol eisoes a sefydlwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae Rhan 3 o'r Mesur yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru benodi panel o gynghorwyr i Gomisiynydd y Gymraeg, a elwir yn Banel Cynghori. Mae'r Mesur hefyd yn nodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau, cyn belled ag y bo'n ymarferol, bod o leiaf 3, ond dim mwy na 5 aelod ar y Panel Cynghori ar unrhyw adeg.

Mae gan y Panel Cynghori gylch gwaith clir sy'n seiliedig ar y ddeddfwriaeth a'i sefydlodd. Mae'r Mesur yn gwneud darpariaethau i ganiatáu i'r Comisiynydd ymgynghori â'r Panel Cynghori ynghylch unrhyw fater. Fodd bynnag, mae hefyd yn gwneud darpariaethau sy'n gosod dyletswydd ar y Comisiynydd i ymgynghori â'r Panel ar rai materion.

Wrth benodi unigolion i'r Panel Cynghori, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i'r ffaith ei bod yn ddymunol i wybodaeth a phrofiad y Comisiynydd ac aelodau'r Panel Cynghori (o'u cymryd gyda'i gilydd) gynnwys y canlynol:

- llywodraethiant corfforaethol;
- cyflawni swyddogaethau a bennwyd yn sgil neu o dan ddeddf;
- hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg neu iaith arall;
- cysylltiadau cyhoeddus;
- gweithdrefnau rheoleiddiol; a
- gweithio mewn partneriaeth â chyrff yn y sectorau cyhoeddus, preifat neu wirfoddol.

Rwyf i o'r farn y gellid sicrhau'r un manteision ag y byddai Bwrdd Llywodraethu newydd yn eu cynnig drwy gryfhau strwythurau llywodraethiant presennol y Comisiynydd a thrwy ofalu eu bod yn cael eu defnyddio. Byddai hyn hefyd yn osgoi unrhyw ddryswch a dyblygu a allai godi pe bai Bwrdd Llywodraethu yn gweithredu ochr yn ochr â'r Panel Cynghori.

Ar hyn o bryd, 3 aelod sydd i'r Panel Cynghori; daw eu tymhorau i ben ar 31 Mawrth 2021. Nawr bod gennym Gomisiynydd newydd, rwyf wedi mynd ati gydag ef i asesu profiad ac arbenigedd ei Banel. O ganlyniad, ddiwedd mis Mehefin, fe es ati i hysbysebu i recriwtio 2 aelod newydd i'r Panel. Daw'r cyfnod ar gyfer gwneud cais i ben ar 3 Medi.

Wedi ystyried arbenigedd a phrofiad y Comisiynydd cyfredol a 3 aelod y Panel, rwyf am benodi o leiaf un aelod newydd sydd â phrofiad o weithio mewn partneriaeth â chyrff yn y sector gwirfoddol. Rwyf wedi penderfynu ymestyn y cyfnod gwneud cais, o gymharu â'r amserlen arferol. Bydd hyn yn

caniatáu i'r Llywodraeth a'r Comisiynydd roi cyhoeddusrwydd i'r cyfleoedd hyn dros fisoedd yr haf, gan ymgysylltu â phobl yn nigwyddiadau'r haf.

Yn dilyn yr ymarfer recriwtio hwn, rwy'n hyderus y bydd gan y Comisiynydd Banel Cynghori cryf a fydd yn abl i'w gynghori ar bob mater sy'n perthyn i'w gylch gwaith. Bydd y Panel Cynghori yn cynnig man diogel i drafod polisïau a syniadau'r Comisiynydd cyn eu gweithredu. Rwyf hefyd yn bwriadu cwrdd ag aelodau'r Panel o bryd i'w gilydd i sicrhau bod y rhan hon o strwythur llywodraethiant y Comisiynydd yn gweithio mewn ffordd mor effeithiol â phosibl.

**Eluned Morgan AC**
**Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol**

**Atodiad A**

Isod, gweler ymateb ysgrifenedig Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol i adroddiad y Pwyllgor ar Gyllideb Ddrafft 2019 - 2020. Cyflwynwyd yr ymateb ym mis Ionawr 2019. Gweler yn benodol argymhellion 5 – 10, sy'n canolbwyntio ar y Gymraeg.

**Argymhelliad 5 (wedi'i dderbyn): Mae'r Pwyllgor yn deall y cyfyngiadau presennol ar gyllid, ond mae hefyd yn pryderu nad yw'r gyllideb sefydlog arian parod yn caniatáu cynnydd digonol tuag at darged uchelgeisiol Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.**

**Y diweddaraf:** Wedi i Brif Weinidog Cymru benodi ei Gabinet newydd ym mis Rhagfyr 2018, cadarnhawyd cyfrifoldebau Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol a'r Gweinidog Addysg mewn perthynas â'r Gymraeg ym mis Ebrill 2019. Mae'r rhain yn cynnwys cydgyfrifoldeb dros Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru: *Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr*.

Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyrraedd y targed hwn, dyrannodd Cyllideb Derfynol 2019-20 (a gymeradwywyd ym mis Ionawr 2019) gyllideb wastad o £38.325m o fewn y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg i gefnogi gwaith Is-adran y Gymraeg. Drwy gynllunio'r gyllideb hon yn ofalus a thrwy waith Is-adran y Gymraeg gyda meysydd polisi eraill o fewn Llywodraeth Cymru, rydym yn hyderus y byddwn yn cyrraedd y nod o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mewn perthynas â rhannu cyllideb Is-adran y Gymraeg yn 2019-20, mae'r cyfrifoldeb dros gyllideb y Gymraeg mewn Addysg (BEL 5164) wedi'i rannu rhwng y Gweinidog Addysg (£14.325m) a Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol (£15.354m). Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol yn unig sy'n gyfrifol am gyllideb y Gymraeg (BEL 6020) a chyllideb Comisiynydd y Gymraeg (BEL 6021).

Er mwyn sicrhau bod y cyllidebau cywir wedi'u neilltuo i'r meysydd cyfrifoldeb Gweinidogol priodol, trosglwyddwyd £14.325m ar gam cyntaf y gyllideb atodol, o Linell Wariant (BEL) y Gymraeg mewn Addysg ym Mhrif Grŵp Gwariant (MEG) y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol i Brif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg. Gwnaed hyn i adlewyrchu'r cyfrifoldebau Gweinidogol fel y'u cyhoeddwyd ym mis Ionawr 2019.

O'r dyraniad cyllidebol o £38.325m yn 2019-20, dyrannwyd £4.3m i hybu'r iaith mewn cymunedau ledled Cymru drwy arloesi, yn ogystal ag adeiladu ar arferion a phrosiectau llwyddiannus sy'n cynnig cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg rannu a mwynhau'r iaith. Dyrannwyd £13.21m ar gyfer darpariaeth 'Cymraeg i Oedolion' ledled Cymru i ryw 15,000 o oedolion sy'n dysgu, a dyrannwyd £0.730m ar gyfer 'Cymraeg i Blant' er mwyn cynyddu nifer y plant sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg drwy gefnogi rhieni, darpar-rieni ac aelodau eraill o'r teulu. Yn ogystal, dyrannwyd £3.221m i ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg a darpariaeth ddwyieithog yn y blynyddoedd cynnar ynghyd

â £3.17m i gomisiynu adnoddau dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Neilltuwyd £6.143m i gefnogi a datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sectorau addysg bellach ac addysg uwch ac i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ynghyd ag £1.65m i ddatblygu gallu'r gweithlu addysg i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae £2.556m arall wedi'i ddyrannu i gefnogi gweithgareddau sy'n ymwneud â gwaith trosfwaol. Mae'r gweithgareddau hyn yn ymwneud â dwy o themâu strategol *Cymraeg 2050*, sef Thema 2 (cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg) a Thema 3 (creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun). Mae £3.051m wedi'i ddyrannu i Gomisiynydd y Gymraeg ac rydym o'r farn bod hyn yn ddigon iddo gyflawni ei swyddogaethau. Mae cyllid wedi'i roi hefyd ar gyfer prosiectau llai, yn eu plith Dydd Miwsig Cymru (£0.050m) ac adnoddau 'Cymraeg i Blant'.

Wrth edrych i'r dyfodol, mae'r refeniw ychwanegol o £6.5 miliwn yn 2019-20 (sy'n rhan o'r cytundeb cyllidebol dwy flynedd gyda Phlaid Cymru) a'r cyllid cyfalaf ar gyfer Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGAdd) a'r Cynnig Gofal Plant wedi rhoi cyfle inni osod y sylfeini ar gyfer cefnogi'r Rhaglen Waith rhwng nawr a 2021. Rydym wedi gallu canolbwyntio ar roi blaenoriaeth i'r gwaith o ddatblygu darpariaeth yn y meysydd canlynol: gofal plant, ôl-16 a'r gweithle. Yn benodol:

<u>Datblygu gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg:</u>

Ar 19 Medi y llynedd, cyhoeddais fod £46m wedi ei neilltuo o’r Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg a’r Grant Cyfalaf ar gyfer y Cynnig Gofal Plant i gefnogi’r twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd y grant yn cefnogi tua 41 o brosiectau ar draws 16 awdurdod lleol ac yn creu 2,818 o lefydd ysgol a gofal plant ychwanegol ar gyfer dysgwyr cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn ychwanegol at y £5 miliwn ar gyfer datblygu Pantycelyn a gyhoeddwyd yn gynharach y llynedd, sy'n gwneud cyfanswm o £51 miliwn i gefnogi addysg Gymraeg (mewn cydweithrediad â’r Gweinidog Addysg a’r Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol ar y pryd).

Bydd y prosiectau hyn yn ychwanegu’n sylweddol at y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ac yn cyfrannu’n fawr at dargedau uchelgeisiol *Cymraeg 2050*. Bydd y cyllid ychwanegol hwn yn golygu y bydd mwy fyth o’n myfyrwyr yn gallu elwa ar gyfleusterau rhagorol i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y cyllid grant 100% yn golygu bod modd creu ysgolion cynradd newydd ac ehangu safleoedd cyfredol. Hefyd, bydd canolfannau iaith yn cael eu datblygu a fydd yn gwneud dysgu Cymraeg fel ail iaith yn fwy hygyrch o lawer ac mae hynny’n gwbl hanfodol os yw’r iaith am barhau i dyfu a ffynnu. Drwy gyfuno cyllid o’r Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg a’r Grant Cyfalaf ar gyfer y Cynnig Gofal Plant, mae Llywodraeth Cymru wedi gallu cael mwy am ei buddsoddiad gan arwain at well gwasanaethau i’n pobl ifanc.

<u>Addysg ôl-16 a’r gweithle:</u>

Er mwyn galluogi'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ymgymryd â rhagor o weithgareddau ôl-16 mewn ymateb i gyhoeddi *Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cyfrwng Cymraeg*, cyfrannwyd £150,000 o gyllideb y Gweinidog Addysg, a £60,000 o gyllideb Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol yn 2018-19 ac eto eleni yn 2019-20.

Yn 2019-20, bydd y £60,000 yn galluogi'r Coleg i benodi llysgenhadon addysg bellach ym mhob coleg a chyda darparwyr prentisiaethau. Bydd y llysgenhadon yn hyrwyddo dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog, a bydd pwyslais ychwanegol ar weithgareddau cymdeithasol i annog defnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol y tu allan i'r dosbarth.

Defnyddir y £150,000 ar gyfer prosiectau strategol ôl-16 i gefnogi'r blaenoriaethau a nodir yn y cynllun gweithredu, a'r dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 1 Gorffennaf.

Yn 2018-19, defnyddiwyd y £60,000 i gefnogi gweithgareddau yn y colegau a oedd yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddefnyddio'u Cymraeg mewn digwyddiadau anffurfiol a chymdeithasol er enghraifft drwy gyfrwng Dydd Miwisg Cymru; a gweithgareddau i ddatblygu dealltwriaeth y dysgwyr o fanteision cael sgiliau dwyieithog ar gyfer y gweithle yn enwedig mewn rhai sectorau allweddol. Cynhaliwyd cynhadledd lwyddiannus yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro ym mis Mawrth ar y sector iechyd a gofal cymdeithasol lle daeth 100 o ddysgwyr ynghyd i weithdai dan ofal y prifysgolion, Gofal Cymdeithasol Cymru a'r byrddau iechyd.

Defnyddiwyd y £150,000 i fapio capasiti'r sector ac i ddatblygu adnoddau a fydd yn galluogi'r sectorau i ddenu rhagor o ddysgwyr i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg yn eu haddysg. Gwnaed hyn yn benodol yn y sector prentisiaethau lle gwelwyd bod ymwybyddiaeth iaith yn angenrheidiol i alluogi pob prentis i gyfathrebu gyda sgiliau sylfaenol yn y Gymraeg mewn sefyllfaoedd yn y gweithle.

Ni phennwyd cyllideb y tu hwnt i 2019-20 ar gyfer gweithgareddau i'w cynnal gan Is-adran y Gymraeg. Fodd bynnag, gan fod y Gymraeg yn flaenoriaeth drawsbynciol, byddwn yn parhau i weithio gyda meysydd polisi eraill i gyflawni *Cymraeg 2050*.

Ar hyn o bryd, dim ond ar gyfer un flwyddyn (2019-20) y mae gennym gyllideb refeniw, a chyllideb cyfalaf ar gyfer dwy flynedd (tan 2021-22), sef y cyfnod y mae gennym setliad cyllid gan Lywodraeth y DU ar ei gyfer. Bydd angen ystyried cyllid ar gyfer y Gymraeg i'r dyfodol (sydd, fel y nodwyd eisoes, yn cael ei ddyrannu ar hyn o bryd ar draws Prif Grŵp Gwariant (MEG) y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol a'r Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg) yng nghyd-destun yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yn nes ymlaen eleni, a bydd angen ystyried cwestiwn buddsoddi yn y ddau Brif Grŵp Gwariant unwaith y bydd dyraniadau dangosol ar gael. Fodd bynnag, rhaid cydbwyso hyn â'r ansicrwydd cyllidol sy'n parhau, y ffaith bod Llywodraeth y DU yn parhau â'i hymgyrch gyni, a'r ansicrwydd mawr ynghylch natur y trafodaethau ar gyfer y fargen y cytunir arni gyda'r UE ar gyfer y dyfodol.

Wrth symud ymlaen, byddwn yn parhau i adolygu'r cynnydd a wnawn ar sail y targedau a amlinellir yn *Cymraeg 2050* ac ar sail ein cyllidebau, a byddwn yn mireinio ein gweithgareddau yn unol â hynny.

**Argymhelliad 6(i) (wedi'i dderbyn): Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ddarparu rhagor o fanylion am ganlyniadau disgwyliedig y Cynllun Sabothol i'r Pwyllgor gan gynnwys nifer y cyfranogwyr ar y cyrsiau byr, y cwrs "Cymraeg mewn Blwyddyn" a gwerthuso gallu ieithyddol y cyfranogwyr ar ôl iddynt ddychwelyd i'w hysgolion.**

**Y diweddaraf:** Mae cyrsiau Cynllun Sabothol yr Iaith Gymraeg ar gyfer ymarferwyr yn parhau i gael eu cynnig ar amrywiol lefelau. Mae'r gwaith yn parhau i recriwtio ymarferwyr i gyrsiau a fydd yn cychwyn yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf.

Mae'r gwaith o werthuso'r Cynllun Sabothol wedi dechrau a chaiff adroddiad ei lunio yn ystod 2020.

Y Gweinidog Addysg sydd bellach yn gyfrifol am bob agwedd ar addysg cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys hyfforddiant ymarferwyr.

**Argymhelliad 6(ii) (wedi'i dderbyn): Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu darpariaeth addysg blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg fod yn ddigon uchelgeisiol i gyflawni'r strategaeth gyffredinol o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro darpariaeth meithrinfeydd cyfrwng Cymraeg yn erbyn y targedau interim a nodwyd gan y Gweinidog i ddarparu cyfanswm o 150 o leoliadau erbyn 2050.**

**Y diweddaraf:** Drwy fuddsoddi £1m arall yng ngwaith Mudiad Meithrin yn sgil y cytundeb cyllidebol gyda Phlaid Cymru, mae wedi gallu ymgymryd â rhaglen sydd â'r nod penodol o sefydlu Cylchoedd Meithrin newydd mewn ardaloedd lle mae yna dystiolaeth nad oes digon o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae Cylchoedd Ti a Fi newydd hefyd wedi'u sefydlu i gefnogi'r Cylchoedd Meithrin newydd hyn lle bo angen. Mae deuddeg o Gylchoedd Meithrin newydd a naw Cylch Ti a Fi newydd wedi'u sefydlu yn ystod blwyddyn gyntaf y rhaglen.

Mae tri ar ddeg o Gylchoedd Meithrin newydd yn cael eu datblygu ar hyn o bryd fel rhan o ail flwyddyn y rhaglen hon. Unwaith eto, mae Cylchoedd Ti a Fi newydd yn cael eu sefydlu i gefnogi'r lleoliadau newydd hyn lle bo angen.

Fel rhan o brosesau data Mudiad Meithrin, caiff gwybodaeth ei chasglu am nifer y plant sy'n mynychu'r lleoliadau newydd hyn a, maes o law, y niferoedd sy'n trosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg, i'n galluogi i fesur effaith y gwaith hwn a mireinio ein targedau i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar os oes angen.

Mae cyfrifoldeb y Gweinidog Addysg o ran addysg cyfrwng Cymraeg wedi'i wneud yn fyw eglur bellach i gynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar, gan gynnwys gwaith Mudiad Meithrin.

**Argymhelliad 7 (wedi'i dderbyn): Holodd y Pwyllgor a fyddai'r cyllid ychwanegol hwn yn ddigonol i gyflawni blaenoriaethau'r cynllun gweithredu gan nad yw'r cynllun gweithredu wedi'i gyhoeddi eto. Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am ragor o fanylion am y blaenoriaethau yn y cynllun gweithredu, a'r cyllid sy'n eu cefnogi, pan fydd y wybodaeth hon ar gael.**

**Y diweddaraf:** Ar 11 Rhagfyr, cyhoeddodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei Gynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cyfrwng Cymraeg fel y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru, a chafodd ei lansio gan y Gweinidog Addysg ar 25 Ionawr 2019.

Mae'r cynllun yn amlinellu camau tymor byr, tymor canolig a thymor hir, o dan y prif flaenoriaethau canlynol:
- Sicrhau bod dysgwyr yn cael y cymorth a'r wybodaeth i allu symud ar hyd continwwm y Gymraeg o fewn addysg a hyfforddiant ôl-16 ac ymlaen i'r cyfnod ôl-19 lle bo'n briodol;
- Creu seilwaith gwell fel bod dysgwyr yn gallu cynyddu lefel eu dysgu drwy'r Gymraeg;
- Meithrin ac ehangu cyfleoedd datblygu staff i'w gwneud yn bosibl i ddarparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16 gynyddu lefel y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg;
- Ymgysylltu'n effeithiol â chyflogwyr i'w gwneud yn bosibl cynllunio sgiliau yn effeithiol.

Wrth fynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn, mabwysiadwyd dull o gydweithredu â rhanddeiliaid er mwyn dylanwadu ar benderfyniadau polisi ac ymgysylltu â'r sectorau addysg bellach a phrentisiaethau, i ddarparu cyfeiriad strategol gan ddefnyddio adnoddau'r Coleg ei hun.

Er mwyn galluogi'r Coleg i fynd i'r afael â chamau penodol i gefnogi'r gofynion y mae'n rhaid i'r sectorau addysg bellach a phrentisiaethau roi sylw iddynt ar unwaith, mae dwy ddarpariaeth grant wedi'u llunio ar gyfer 2019-20.

Bydd swm o £150,000 o gyllideb y Gweinidog Addysg yn cefnogi'r sectorau addysg bellach a phrentisiaethau mewn dau faes:

i. Datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a / neu ddwyieithog yn y tri phrif faes blaenoriaeth a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu, hynny yw Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Gofal Plant a Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd disgwyl i sefydliadau hefyd gydfuddsoddi er mwyn cyrraedd y nodau.
ii. Parhau i ddatblygu adnoddau drwy gomisiynu adnoddau cyfrwng Cymraeg ar gyfer y sector addysg bellach. Bydd hyn yn adeiladu ar brosiect 2018-19 i nodi a chomisiynu adnoddau, a gyllidwyd gan

Gangen Gomisiynu Is-adran y Gymraeg, drwy swm o £47,000. Cynigir £47,000 arall gan y Gangen Gomisiynu yn 2019-20 er mwyn nodi a blaenoriaethu'r adnoddau sydd eu hangen yn y sector prentisiaethau yn benodol.

Mae swm o £60,000 o gyllideb Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol wedi'i ddyrannu i hybu'r defnydd o'r Gymraeg a hyrwyddo'r arfer o ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y gweithgareddau a drefnir yn cynnwys penodi llysgenhadon ymhlith dysgwyr addysg bellach a'r rheini sy'n dilyn prentisiaethau i hybu dysgu cyfrwng Cymraeg mewn digwyddiadau; cefnogi gweithgareddau cymdeithasol i normaleiddio defnydd o'r iaith; a chefnogi digwyddiadau penodol i hybu a hyrwyddo parhad ieithyddol, gan dargedu dysgwyr lefel 3 lle maent mewn sefyllfa i barhau i addysg uwch.

Yn ogystal, mae'r Coleg wedi cydweithio â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gynnig cymorth i'r sector prentisiaethau fel rhan o raglen Cymraeg Gwaith. Bydd y gwaith hwn yn adeiladu ar y cymorth y mae'r Ganolfan wedi'i gynnig i'r sector Addysg Bellach yn 2018-19. Ariennir y gwaith hwn o'r grant a ddyfarnwyd i'r Ganolfan gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol i gyflwyno rhaglen Cymraeg Gwaith.

Y Gweinidog Addysg sydd bellach yn gyfrifol am addysg ôl-16.

**Argymhelliad 8(i) (wedi'i dderbyn): Hoffai'r Pwyllgor gael ymrwymiad mwy cadarn gan Lywodraeth Cymru mai eu bwriad yw tanysgrifennu unrhyw gostau o weithgareddau tribiwnlys gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg na ellir talu amdanynt o gronfeydd wrth gefn.**

**Y diweddaraf:** Mae'r Gweinidog yn cyfarfod â Chomisiynydd y Gymraeg bob chwarter, ac mae'r swyddogion yn cyfarfod yn rheolaidd. Byddai unrhyw bwysau ariannol yn cael eu trafod yn y cyfarfodydd hynny. Pe bai cyllido achosion cyfreithiol sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Mesur yn arwain at bwysau ariannol, byddai'n rhaid i Weinidogion Cymru ystyried a fyddai angen dyrannu cyllid ychwanegol i'r Comisiynydd.

**Argymhelliad 8(ii) (wedi'i dderbyn): Roedd y Pwyllgor yn awyddus i ddeall y broses lle cytunwyd ar gynigion y gyllideb rhwng Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes a Chomisiynydd y Gymraeg. Bydd y Pwyllgor yn gofyn i Lywodraeth Cymru amlinellu'r cyfathrebu rhwng y Gweinidog, swyddogion a Chomisiynydd y Gymraeg. Yn benodol, hoffai'r Pwyllgor ddeall am amseru a natur newidiadau'r Comisiynydd i'w chyllideb.**

**Y diweddaraf:** Mae gan gyllideb y Comisiynydd ei Llinell Wariant ei hun o fewn y Cam Gweithredu (BEL) cyffredinol mewn perthynas â'r Gymraeg sy'n sicrhau bod y dyraniad blynyddol yn glir. Mae'r Gweinidog yn cyfarfod â Chomisiynydd y Gymraeg bob chwarter, ac mae'r swyddogion yn cyfarfod yn rheolaidd. Trafodir materion cyllidebol yn y cyfarfodydd hynny.

Mae paragraff 17 o Atodlen 1 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar y Comisiynydd i lunio amcangyfrif o incwm a threuliau swyddfa'r Comisiynydd ac i gyflwyno'r amcangyfrif i Weinidogion Cymru o leiaf bum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol berthnasol. Rhaid i Weinidogion Cymru archwilio unrhyw amcangyfrif a gyflwynir iddynt a gosod yr amcangyfrif hwnnw gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynghyd â'r addasiadau (os o gwbl) sy'n briodol yn eu barn nhw. Fel rheol, cyflwynir yr amcangyfrif i Weinidogion ym mis Hydref a bydd y Gweinidogion yn ystyried yr amcangyfrif cyn penderfynu ar ddyraniad cyllidebol y Comisiynydd. Yn ogystal â'r ddogfen honno, bydd y Gweinidogion yn ystyried y trafodaethau a gynhaliwyd gyda'r Comisiynydd yn ystod y flwyddyn. Wedi i'r Cynulliad gymeradwyo'r gyllideb, bydd y Gweinidog yn ysgrifennu at y Comisiynydd i gadarnhau'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol wedyn.

**Argymhelliad 9(i)(wedi'i wrthod): Hoffai'r Pwyllgor gael ymrwymiad llawer mwy cadarn gan Lywodraeth Cymru o ran pryd y bydd Bil y Gymraeg yn cael ei gyflwyno.**

**Y diweddaraf:** Cyhoeddodd y Gweinidog Ddatganiad ar 1 Chwefror yn cadarnhau na fydd Gweinidogion yn bwrw ymlaen â'r gwaith o gyflwyno Bil y Gymraeg.

**Argymhelliad 9(ii**) (wedi'i dderbyn): **Mae hefyd yn bwysig nad yw sefydliadau masnachol, fel cwmnïau cyfleustod cyhoeddus, yn defnyddio diffyg safonau iaith fel esgus i leihau neu arafu eu darpariaeth Gymraeg. Mae angen i Lywodraeth Cymru hefyd sicrhau bod y sector preifat yn parhau i fuddsoddi mewn darpariaeth Gymraeg. Yn y cyd-destun hwn, dylid ystyried rhoi mwy o wybodaeth am ddarpariaethau tebygol y ddeddfwriaeth newydd er mwyn rhoi amser i sefydliadau'r sector preifat baratoi.**

**Y diweddaraf:** Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai'r sector preifat barhau i fuddsoddi mewn darpariaeth Gymraeg. Rydym yn gweithio ar ddau brosiect penodol i'r perwyl hwn, a gyllidir drwy Linell Wariant (BEL) y Gymraeg:

<u>Rhwydwaith o swyddogion i hyrwyddo'r Gymraeg yn y sector preifat</u>
Yn 2017, sefydlwyd rhwydwaith o swyddogion i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn busnes, a reolir gan Lywodraeth Cymru drwy'r Mentrau Iaith. Ar hyn o bryd, mae'n cyflogi cydlynydd ac 14 o swyddogion busnes. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys:

- cymorth a chyngor ymarferol er mwyn galluogi'r sector preifat i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar lafar, ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn weledol (arwyddion ac ati);
- prosiectau yn cynnwys hyfforddiant, digwyddiadau a gwobrau;
- cynnal neu gydweithio ar ymgyrchoedd perthnasol gan Lywodraeth Cymru ac eraill;
- sefydlu a mynychu fforymau strategaeth lleol i gynnwys partneriaid allweddol;

- cydweithio â’r Canolfannau Iaith i gryfhau'r effaith ieithyddol mewn cymunedau;
- monitro drwy'r gronfa ddata beilot 'cyn ac wedyn' a grëwyd gyda’r Llywodraeth Cymru (a allai fod yn beilot i fesur effaith ymyriadau iaith eraill os yw'n llwyddiannus).

'Pwynt Cyswllt' ar gyfer y Gymraeg
Mewn Datganiad Gweinidogol ym mis Ebrill 2017, addawodd Alun Davies sefydlu pwynt cyswllt ar gyfer y Gymraeg i helpu'r sectorau preifat a gwirfoddol i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg. Bydd y pwynt cyswllt yn cynnig gwasanaeth cyfieithu hyd at 500 o eiriau yn rhad ac am ddim, ac yn gweithio ochr yn ochr â gwasanaeth prawfddarllen Comisiynydd y Gymraeg. Bydd hefyd yn ymateb i amrywiol ymholiadau ynghylch y Gymraeg, ac yn cyfeirio pobl at y ffynonellau cymorth perthnasol. Bydd y pwynt cyswllt yn bwynt canolog rhwng Llywodraeth Cymru, y rhwydwaith o swyddogion busnes, Comisiynydd y Gymraeg a'r sector preifat. Bydd yn defnyddio system gyfrifiadurol 'canolfan alwadau' Busnes Cymru. Caiff ei lansio yn nes ymlaen yn 2019.

Mae'r Gweinidog hefyd wedi cyfarfod â chynrychiolwyr o'r diwydiant Nwy a Thrydan i drafod y gwasanaethau Cymraeg y maent yn eu cynnig ar hyn o bryd, a'r hyn y gellir ei wneud i wella'r gwasanaethau hyn a'r nifer sy'n eu defnyddio yn y dyfodol. Cytunwyd y byddai'r ddeialog hon yn parhau, gan gynnwys trefnu seminar i drafod rôl technoleg iaith yn y broses o wella'r gwasanaethau Cymraeg y maent yn eu cynnig.

**Argymhelliad 10 (wedi'i dderbyn):**
**Bydd y Pwyllgor am edrych eto ar y buddsoddiad hwn i geisio sefydlu canlyniadau’r gwariant yn ystod y rownd cyllideb nesaf.** (Yn ei adroddiad, croesawodd y Pwyllgor y swm untro o £2.75 miliwn ar gyfer ehangu, adfer a diweddaru cyfleusterau yng Nglan-llyn a Llangrannog. Gofynnodd y Pwyllgor am ragor o fanylion am natur y canlyniadau disgwyliedig yn sgil y cyllid hwn.)

**Y diweddaraf:** Mae'r prosiectau i wella adeiladau Glan-llyn a Llangrannog ar amrywiol gamau cynllunio, tendro a cheisio caniatâd cynllunio. Bydd y gwaith adnewyddu yng Nglan-llyn yn dechrau ym mis Medi 2019 a disgwylir iddo ddod i ben ym mis Ebrill 2020. Bydd y gwaith o ailwampio Canolfan Hyfforddi Glan-llyn yn cychwyn ym mis Ionawr 2020 a disgwylir iddo ddod i ben yn 2021. Bydd y gwaith o ailwampio yn Llangrannog yn cychwyn ym mis Ionawr 2020 a disgwylir iddo ddod i ben yn 2021.

Bydd y buddsoddiad hwn yn darparu llety a chyfleusterau arbenigol ar gyfer grwpiau yng Nglan-llyn Isa, bydd yn gwneud Canolfan Hyfforddi Glan-llyn yn fwy defnyddiol a hyblyg, a bydd yn gweddnewid calon y gwersyll yn Llangrannog. Bydd y gwelliannau hyn yn gwella capasiti cyfredol y ddau wersyll i fodloni'r galw cynyddol am brofiadau cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion ail iaith; gwella adeiladau sydd mewn cyflwr gwael; bodloni anghenion grwpiau ysgol ac addysgol sy'n ymweld; a sicrhau bod lleoliad addysgol y gwersylloedd yn gyson â'r continwwm addysgu a dysgu cyfrwng

Cymraeg sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm i Gymru sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

Byddwn yn disgwyl derbyn gwybodaeth am y sefyllfa ar ddiwedd y prosiect.

# Eitem 3

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

equity

Bethan Sayed
Chair
Culture, Welsh Language and Communications Committee
National Assembly for Wales
BY EMAIL

17th June 2019

Dear Bethan,

**Inquiry into Film and Major Television Production in Wales – May 2019**

I write, somewhat belatedly, in response to the publication of the report in May and to express our thanks for the committees work on this inquiry and for the opportunity to contribute. We welcome and support all the recommendations to the Welsh Government including, but not limited to, those that would have a direct result on our members living here in Wales.

With regards to Recommendation 10 we would like to suggest a clarification of what is meant by 'one local audition' so as to avoid any confusion if implemented. It could be interpreted, if taken to its literal industry sense, to mean just one person auditioning and whilst we know that is not the basis of the recommendation we would prefer to see it clarified as 'one local set of auditions' or 'one full day of auditions'. As already stated this should be the very least being undertaken by major productions in receipt of Welsh Government funding.

We look forward to the Welsh Governments response to the report with great interest with the hope that these recommendations are embedded in any future Creative Wales strategy and plan.

Yours sincerely

Simon Curtis
National Organiser for Wales

Wales and South West England Office
Swyddfa Cymru a De Orllewin Lloegr
Transport House ▪ 1 Ffordd yr Eglwys Gadeiriol ▪ Caerdydd ▪ CF11 9HA
Transport House ▪ 1 Cathedral Road ▪ Cardiff ▪ CF11 9HA
[redacted]

Equity
**General Secretary** Christine Payne
**Head Office** Upper St Martin's Lane, London WC2H 9EG
Independent Trades Union
incorporating the Variety Artistes Federation

Equity
**Ysgrifennydd Cyf** Christine Payne
**Prif Swyddfa** Upper St Martin's Lane, London WC2H 9EG
Undeb Llafur Annibynnol
gan gynnwys Ffederasiwn Artistiaid Adloniant Ysgafn

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**National Assembly for Wales**
Culture, Welsh Language and Communications Committee

Simon Curtis

Trefnydd Cenedlaethol Cymru

Equity

3 Gorffennaf 2019

Annwyl Simon

**Adroddiad ar yr ymchwiliad i gynyrchiadau ffilm a theledu mawr yng Nghymru**

Diolch ichi am gymryd rhan yn ymchwiliad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu i gynyrchiadau ffilm a theledu mawr yng Nghymru.

Diolch hefyd am roi eglurhad ynghylch yr argymhelliad a wnaed yn yr adroddiad ar yr angen i gynnal clyweliadau lleol. Yn ymateb y Llywodraeth i'r argymhelliad hwn, dywedodd y byddai'n ystyried cynnwys hyn fel amod i'w chyllid ar gyfer cynyrchiadau o dan sefydliad Cymru Greadigol.

Rwy'n anfon eich llythyr ymlaen at Lywodraeth Cymru ac yn eu hysbysu o'r angen i gynnwys o leiaf 'un diwrnod llawn o glyweliadau' fel amod i'r cyllid.

Byddaf yn mynd ar ôl hyn eto pan fydd y Pwyllgor yn gofyn am ragor o fanylion gan Lywodraeth Cymru ynghylch cyllid, cyfrifoldebau a threfniadau llywodraethu Cymru Greadigol, ac fe rannaf y wybodaeth hon â chi.

Diolch ichi am godi'r mater hwn, ac edrychaf ymlaen at weithio â chi eto yn y dyfodol.

Yn gywir,

Bethan Sayed

**Cadeirydd y Pwyllgor**

Vaughan Gething AC

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Llywodraeth Cymru

2 Gorffennaf 2019

Annwyl Vaughan

**Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Y Gymraeg mewn Gwasanaethau Gofal Sylfaenol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019**

Ystyriodd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y Rheoliadau uchod yn ei gyfarfod ar 6 Mehefin. Yn ystod y cyfarfod clywsom gan grwpiau cynrychioliadol gan gynnwys darparwyr gofal iechyd sylfaenol annibynnol, swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a Chymdeithas yr Iaith Gymraeg. Cyhoeddwyd adroddiad ar y gwaith craffu hwn ar 13 Mehefin 2019.

Daeth Russell Goodway, Prif Weithredwr Fferylliaeth Gymunedol Cymru, i'n cyfarfod a siaradodd am effaith y Rheoliadau ar aelodau ei sefydliad. Ers hynny mae wedi ysgrifennu ataf i wneud sylwadau ar adroddiad y Pwyllgor, gan ddweud:

> While we do not disagree with any of the recommendations in the report, Community Pharmacy Wales (CPW) continues to have reservations in terms of the way that the regulations have been framed. As we made clear in both our written and oral evidence, the requirements in the Regulations as drafted fall on a NHS pharmacist delivering 'pharmaceutical services'.
>
> The Regulations state that the definition of pharmaceutical services is as stated in regulation 2(1) of the 2013 Regulations.
>
> The 2013 Regulations are the National Health Service (Pharmaceutical Services) (Wales) Regulations 2013. In these

Regulations it states that the definition of pharmaceutical services is 'pharmaceutical services that fall within section 80 of the 2006 Act and do not include directed services'.

CPW remains of the opinion, therefore, that the requirements of the Regulations may only apply to the dispensing of prescriptions and the supply of medicines. This is not an accurate reflection of the work of community pharmacies and we reiterate that the regulations will only produce meaningful change if they cover the supply of medicines together with the provision of both NHS Advanced and Enhanced Services.

Put simply yet again, the Regulations as drafted to cover only the dispensing of medicines and not the wide range of other services a community pharmacy undertakes, be that smoking cessation or other common place health advice, which can continue to be carried out without any reference to the use of the Welsh language. Bearing in mind the thrust of the rest of the Committee's report is directed toward maximising the use of the Welsh language in primary care settings, we are surprised and disappointed that our simple and practical point around re-framing the services to maximise Welsh language use has not been taken on board in any way.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech nodi'r rhesymau pam y gwnaethoch ddrafftio'r Rheoliadau i gynnwys gofynion ar fferyllfeydd yn ymwneud â'u rôl wrth ddosbarthu meddyginiaethau a phresgripsiynau yn unig, a'ch bod wedi eithrio'r gwasanaethau ehangach ac ychwanegol y maent hefyd yn eu darparu?

A wnewch chi gadarnhau a ystyriwyd pryderon Fferylliaeth Gymunedol Cymru ynglŷn â'r mater hwn fel rhan o'ch gwaith wrth baratoi'r Rheoliadau hyn, ac os felly, pam na weithredwyd arnynt?

Fel y gwyddoch, roedd y Pwyllgor yn pryderu ynghylch amseriad a chynnwys y Rheoliadau, a ddaeth i rym ar 30 Mai. Mae ein rhanddeiliaid yn parhau i

bwysleisio bod angen darparu gwasanaethau gofal sylfaenol yn iaith ddewisol y cleifion. Rwyf o'r farn bod Russell Goodway wedi gwneud ymholiad dilys am y ffordd y mae'r Rheoliadau wedi'u drafftio, ac mae ei bryder bod perygl nad ydynt am arwain at 'newid ystyrlon' yn haeddu ymateb.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ateb y cwestiynau hyn erbyn 31 Gorffennaf 2019.

Yn gywir,



Bethan Sayed

**Cadeirydd y Pwyllgor**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**National Assembly for Wales**
Culture, Welsh Language and Communications Committee

Kirsty Williams AC

Y Gweinidog Addysg

Llywodraeth Cymru

3 Gorffennaf 2019

Annwyl Kirsty,

**Addysgu hanes Cymru**

Mae'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu wedi bod yn ystyried addysgu hanes Cymru mewn ysgolion. Gwnaethom ysgrifennu atoch o'r blaen ynglŷn â'r pwnc hwn ym mis Mawrth i ofyn am ragor o wybodaeth am hyfforddiant athrawon, yr amser a dreulir yn addysgu hanes Cymru, ac argaeledd deunyddiau addysgu.

Gwnaethoch hefyd ysgrifennu atom ym mis Mai i ddweud y byddwch yn trafod ein hawgrym i gynnal adolygiad thematig o'r modd y caiff hanes Cymru ei addysgu â'r Prif Arolygydd yn Estyn.

Yn ein cyfarfod ar 26 Mehefin, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan randdeiliaid ar y Cwricwlwm Drafft i Gymru 2022, a gyhoeddwyd ar 30 Ebrill.

Yn ystod y cyfarfod clywsom gan Ioan Rhys Jones o UCAC, a fynegodd bryderon am y gallu i drosglwyddo sgiliau addysgu. Dywedodd y canlynol:

> Rightly or wrongly, we're stepping into a situation where those who will have been taught to teach in England will not be able to do so in Wales, and there has to be a realisation and an understanding that that is the case. Our curriculum has been quite different to England in many ways for a number of years. These changes now mean that we are going to make the pot smaller, unless there is going to be an investment in training those who come into the

> country as teachers of the Welsh curriculum... But we are coming to a crunch period in education in Wales, in as much as if you want to teach in Wales, you will have to be trained in Wales, and perhaps the partnership that goes across the border as far as teacher training is concerned is going to come unstuck in that respect as well.

A wnewch amlinellu unrhyw asesiadau effaith yr ydych wedi'u cynnal, cyn cyflwyno'r Cwricwlwm Drafft i Gymru 2022, ar recriwtio a chadw gweithwyr addysg proffesiynol?

A wnewch amlinellu'r dystiolaeth a gawsoch ynghylch effaith dargyfeirio'r cwricwla ar athrawon o Loegr sy'n ceisio am swyddi addysgu yng Nghymru ac i'r gwrthwyneb?

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 9 Awst.

Yn gywir,

Bethan Sayed

Bethan Sayed

**Cadeirydd y Pwyllgor**